Rhoi egwyddorion ar waith

rhestr gyfeirio ar gyfer gweithredu

Seiliwyd y rhestr gyfeirio hon ar yr **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru** a **Safonau Cenedlaethol Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru**, a'i nod yw galluogi'r rheini sy'n dylunio gwaith ymgysylltu i gynllunio'n effeithiol at lwyddiant. Fel rhan o'ch proses gynllunio, gweithiwch drwy bob egwyddor / safon, gan ofyn y cwestiynau canlynol i'ch hun.

1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Parch - Byddwn yn cymryd dy farn o ddifrif – Safon 4

- A fydd yn gwneud gwahaniaeth?

  Os felly, a ydych yn glir o ran pwrpas a chanlyniad y gweithgaredd ymgysylltu?

  Os ydych yn ansicr, treuliwch fwy o amser i sicrhau eglurder ynghylch y diben a'r canlyniad.

  Os ddim, peidiwch â'i wneud neu heriwch y rheini sy'n disgwyl i chi ei wneud
- A ydych yn glir o ran beth y gellir a beth na ellir ei newid neu beth sydd neu sydd ddim yn agored i drafodaeth neu broses benderfynu?
- Sut y byddwch yn mesur pa wahaniaeth y mae'r ymgysylltu wedi'i wneud

2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Dy Ddewis Di - digon o wybodaeth ac amser i wneud dewis cytbwys – Safon 2

- Pwy sydd angen ei gynnwys?
- Pwy sydd eisiau cael ei gynnwys?
- Sut ydych yn cyrraedd y bobl hyn?

3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

- Faint o amser rydych yn ei ganiatáu i gamau cynllunio'r ymgysylltu? (mae hi BOB TRO yn cymryd mwy nag rydych yn ei feddwl)
- A ydych yn glir o ran y lefel/au o ymgysylltu sy'n angenrheidiol?
- Pa amrywiaeth o ddulliau y byddwch yn eu defnyddio?

4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

- Gyda phwy rydych yn gweithio ar hyn o bryd?
- Gyda phwy arall y mae angen i chi weithio?
- A oes modd i chi rannu gwybodaeth ymgysylltu sydd eisoes yn bodoli?
- A ydych yn gweithio gyda'r trydydd sector i gyrraedd grwpiau?

5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Gwybodaeth - sy'n hawdd i blant a phobl ifanc ei deall – Safon 1

- A oes unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth?
- A yw'r wybodaeth yn berthnasol i'r ymgysylltu?
- A yw'n gywir ac yn gyfredol?
- A yw'n rhoi gwybod i bobl bopeth y maent ei angen i ymgysylltu?
- A ydych wedi'i brofi â grŵp o ddefnyddwyr?
- A oes gwahanol fformatau ar gael e.e. fersiwn i blant a phobl ifanc, hawdd ei ddarllen, sain, print bras, dwyieithog

Cyfranogaeth Cymru

6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Dim Gwahaniaethu - yr un cyfle i blant a phobl ifanc gael cyfranogi – Safon 3

- A yw'r dull ymgysylltu yn briodol i'r gynulleidfa darged?
- A yw pobl wedi cael dewis o ddulliau ymgysylltu e.e. wyneb yn wyneb neu arlein?
- A yw'r rhwystrau i ymgysylltu wedi'u nodi ar gyfer pob grŵp penodol, gan ofyn i'r bobl eu hunain beth yw'r rhain?
- A yw atebion i'r rhwystrau wedi'u hystyried a chamau wedi'u cymryd i'w goresgyn pan fo'n bosib?
- A yw lleoliadau'n hollol hygyrch?

7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Byddi di ar dy ennill - Byddi'n mwynhau'r profiad – Safon 5

- A yw'r gweithgaredd ymgysylltu wedi'i ddylunio i rymuso pobl?
- A fydd yn galluogi i leisiau tawelach gael eu clywed?
- A yw'r cymorth angenrheidiol yn ei le i alluogi'r rheini sy'n llai abl neu hyderus i gymryd rhan?
- A yw'r ymgysylltu wedi'i ddylunio i gynnig y profiad gorau posib i gyfranogwyr?
- A fydd yr ymgysylltu yn caniatáu cyswllt a chyfranogi parhaus?

8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

- A ydych yn teimlo bod gennych adnoddau digonol i gyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol?
- A ydych wedi cyfrifo cost yr ymgysylltu?
- A ydych wedi cynnwys talu am dreuliau'r cyfranogwyr?
- A fydd modd i chi gynnig lluniaeth?
- A oes gennych staff digonol i wneud yr ymgysylltu?
- A oes modd i chi weithio gyda sefydliadau partner i gyfuno adnoddau?
- A yw staff wedi'u hyfforddi mewn ymgysylltu a hwyluso yn effeithiol?

9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Adborth - Byddi di'n gweld pa wahaniaeth mae dy farn wedi'i wneud – Safon 6

- A ydych wedi cynllunio sut y byddwch yn rhoi adborth i bobl?
- A oes modd i chi roi gwybod i bobl am gynnydd y gwaith wrth iddo fynd rhagddo, neu ddiffyg cynnydd, os oes angen?
- A oes modd i chi gynnig dewis o ffyrdd i bobl gael adborth?

10 Learn and share lessons to improve the process of engagement

Gwella'r ffordd rydym yn gweithio. Bydd oedolion yn gofyn i chi sut y gallant wella'r ffordd y maent yn gweithio yn y dyfodol – Safon 7

- Pa gynlluniau sydd gennych yn eu lle i adolygu neu werthuso'r broses ymgysylltu?
- Sut y byddwch yn cael adborth gan gyfranogwyr?
- Sut y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio arferion yn well yn y dyfodol?
- A ydych wedi manteisio ar Becyn Cymorth Gwerthuso yr Egwyddorion Cenedlaethol?

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar
www.participationcymru.org.uk/principles
a **www.cymruifanc.cymru**